OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 567

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

## RHAN 12

## Datblygiad ag Effeithiau Trawsffiniol Sylweddol

**Prosiectau mewn Gwladwriaeth AEE arall sy'n debygol o gael effeithiau trawsffiniol sylweddol**

**57.**—(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cael gwybodaeth gan Wladwriaeth AEE arall, yn unol ag Erthygl 7(1) neu (2) o'r Gyfarwyddeb, a gasglwyd oddi wrth ddatblygwr prosiect arfaethedig yn y Wladwriaeth AEE arall gan y Wladwriaeth AEE honno, sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd yng Nghymru, rhaid iddynt, yn unol ag Erthygl 7(4) o'r Gyfarwyddeb—

(a) cynnal ymgynghoriadau gyda'r Wladwriaeth AEE honno ynghylch effeithiau sylweddol posibl y prosiect arfaethedig ar yr amgylchedd yng Nghymru a'r mesurau a ragwelir ar gyfer lleihau neu ddileu effeithiau o'r fath; a

(b) cyn y rhoddir cydsyniad datblygu i'r prosiect, penderfynu ar gyfnod rhesymol ar y cyd â'r Wladwriaeth AEE honno pryd y caniateir i aelodau'r cyhoedd yng Nghymru gyflwyno sylwadau i'r awdurdod cymwys yn y Wladwriaeth AEE honno, yn unol ag Erthygl 7(3)(b) o'r Gyfarwyddeb.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd—

(a) trefnu i'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1) fod ar gael, o fewn cyfnod rhesymol ac am gyfnod nad yw'n llai na 30 o ddiwrnodau, i'r awdurdodau yng Nghymru sy'n debygol o fod â phryderon ynghylch y prosiect oherwydd eu cyfrifoldebau amgylcheddol penodol, ac i'r cyhoedd dan sylw yng Nghymru hefyd;

(b) sicrhau bod yr awdurdodau hynny a'r cyhoedd dan sylw yn cael cyfle i anfon ymlaen eu barn ar yr wybodaeth a ddarparwyd at yr awdurdod cymwys yn y Wladwriaeth AEE berthnasol o fewn cyfnod rhesymol o amser, cyn y rhoddir cydsyniad datblygu i'r prosiect; ac

(c) sicrhau bod unrhyw wybodaeth a geir gan awdurdod cymwys y Wladwriaeth AEE berthnasol ar gael i'r cyhoedd dan sylw er mwyn cydymffurfio ag Erthygl 9(2) o'r Gyfarwyddeb.